

## CYNGOR BRO LLANGELER – 29-04-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ebrill 29ain 2019 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **04/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. John Crossley, Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Ken Howell, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Marc Rees, Dilwyn Smith, , John Wigley. Clerc – Stella Jones **HEFYD YN BRESENNOL** – Heddlu , Cyfieithydd ac aelodau o'r cyhoedd
2. **04/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Aled Eynon, Adrian Thomas.
3. **04/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – 6.6i.03/18 Cyng. K Howell, D Smith, M Rees
4. **04/19 HEDDLU:** PCSO J Kedward – dwedodd bod yr heddlu allan ar y pryd yn mynd a'r injan dân drwy Drefelin i gael gweld beth yw'r sefyllfa. Ynglŷn a'r cwyn am y parcio ar y palmant ger Parc Puw dwedodd bod y person yn pryderu fwy am y fynedfa na'r palmant. Ynglŷn â ci wedi cael ei ladd ar yr hewl ym Mhentrecagal nid oedd wedi clywed dim am y mater.
5. **04/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 25ain 2019  
Cynigydd – Cyng. N Jones  
Eilydd – Cyng. D Smith
6. **04/19 MATERION YN CODI :**
  - 12.i.01/14. b)Audio Trail – dwedodd Cyng J Ayres mae'r dyfynbris am y gwaith o argraffu yw £2,967- cytunwyd i'w dderbyn ac i fwrw mlaen â'r gwaith.
  - 6.i. Pwyllgor y Parc – dwedodd y Clerc dylai'r les fod wedi cael ei harwyddo cyn y cyfarfod nesaf.
  - 7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – cyn gynted a bydd y les wedi ei harwyddo bydd copi yn cael ei anfon ymlaen i Rhodri Edwards er mwyn i'r parc gael dechrau ar y broses o Weithred Ymrwymiad[ 'Deed of Dedication' ]
  - 10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – dwedodd y Cyng K Howell bod mân bethau o'i le ond wedi cael eu atgyweirio, y golchi lawr wedi ei wneud dim ond y peintio sydd ar ôl i'w wneud. Atgoffwyd bod angen arwydd ar yr hewl ger mynedfa'r parc yn cyfarwyddo at lleoliad y toiledau
  - 10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – dwedodd y Clerc ei bod wedi rhoi copi o'r les cafodd gyda'r cyfreithiwr i bwyllgor y parc i edrych drosto – daeth Cyng D Smith nôl a'r les a dweud bod Emyr Jones yn dweud ei bod yn iawn, ni adroddwyd hyn yn union i'r clerck Mr Jones
  - 10.i.06/17 Tir Temple – dim mwy i adrodd ar hyn o bryd ond bod y cais am gael y garafân yno'n barhaol wedi ei wrthod.
  - 10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – mae Mr Ian Salmon sy'n byw ym Mhentrecagal fel gŵr a fu'n aelod o'r Fyddin am 36 mlynedd yn barod i ddadorchuddio'r plac pan bydd angen
  - 10.03/19 Trasio tir dan ofal y Cyngor – mae Mr Ryan Jones, Pentrecwrt wedi ymgymryd a dechrau ar y gwaith
7. **04/19 GOHEBIAETH:**
  - i. Ambiwllans Awyr Cymru – llythyr o ddiolch am y cyfraniad
  - ii. ebost – ULIC –Bwletin Newyddion Mawrth 2019 – cylchlythyryd
  - iii. ebost – Copi o lês Pentrecwrt – Parc Saron wedi cael copi i edrych drosto
  - iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 25.03.19 - 29.03.19 – cylchlythyryd
  - v. ebost – CSG – Strategaeth Toiledau Lleol Ddrafft Cyngor Sir Caerfyrddin – cylchlythyryd
  - vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 01.04.19 - 05.04.19 – cylchlythyryd
  - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 08.04.19 - 12.04.19 – cylchlythyryd
  - viii. ebost – Cau hewl ar frys: C1301 Bancyffordd, Llandysul – cylchlythyryd
  - ix. ebost – CSG – Gweithdy Rheoli Llecynnau Gywrdd – cylchlythyryd
  - x. ebost – CSG – Dyddiadau Amnestau Gwastraff 2019/20 - Dydd Sadwrn 8yb – 12yp – ar:- 29/06/2019, 14/09/2019, 29/02/2020 - cylchlythyryd
  - xi. ebost /email – CSG / CCC – Ceisiadau Cynllunio 15.04.2019 - 19.04.2019 – cylchlythyryd
  - xii. ebost – Cau ffordd dros dro yr U5408- newid dyddiad i 24/04/2019 – cylchlythyryd
  - xiii. ebost – Sally Hall – Cais Cynllunio am safle claddu naturiol yn Saron – dim barn naill ffordd na'r llall
  - xiv. ebost – Digwyddiad Rhwydweithio – Cynhadledd ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru
  - xv. Caroline Roberts – pryder a gwrthwynebiad ynghylch dargyfeirio llwybr troed cyhoeddus 12/128 – presennol yn y cyfarfod ac fe siaradwyd am eu rhesymau am wrthwynebu
  - xvi. G & Y Davies – gwrthwynebu dargyfeirio llwybr troed 12/128 – presennol yn y cyfarfod ac fe siaradwyd am eu rhesymau dros wrthwynebu
  - xvii. ebost – ULIC – Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2019
  - xviii. ebost CSG – Ceisiadau Cynllunio 22.04.19 - 26.04.19 – cylchlythyryd
  - xix. Diwrnod Llynges Fasnachol 03/09/2019
8. **04/19 CYNLLUNIO**

Ymgynghoriad dargyfeirio llwybr cyhoeddus 12/128 - yn dilyn trafodaeth gyda cynnig i wrthod y cais a chynnig yn cytuno â'r cais pleidleisiwyd bod y cynnig i ddargyfeirio'r llwybr yn cael ei wrthod gan y Cyngor trwy fwyafrif.

**Cais Ymgynghori llaw**

W/38737 – Golygfa, Cwmhiraeth SA44 5XL – estyniad un llawr arfaethedig ar ôl troed yr adeilad un llawr presennol, ynghyd ag addasiadau cysylltiedig i'r adeilad presennol – *dim gwrthwynebiad*

**9. 04/19 MATERION ARIANNOL**

Derbyn Cyfrifon am 2018/19 – *trafodwyd y cyfrifon ac fe'i derbyniwyd*

**a. Anfonebau**

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 29/04/2019 .....£71.40
- ii. HIRIO NEUADD YR EGLWYS – cyfarfod 29/04/19 .....£12.25  
[rhoddwyd caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn ]
- iii. Eleri Thomas – cofrestru tir yn Parc Puw[parc] a delio gyda'r cofrestru .....£203.00
- iv. Eleri Thomas – gwirio les parc Maesyderi, Pentrecwrt a chofrestru y tir.....£240.00
- v. Dŵr Cymru [Cwmins Cwmhiraeth].....£13.88

Arian yn y Banc ar 02/04/19 .....£12,128.96

**b. S/O**

Cyflog y Clerk.....£550.00

**c. Credid**

Praesept .....£10,537.74

**10. 04/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

Lwfans Cynghorwyr – rhoddwyd cyfle i'r cynghorwyr optio allan o dderbyn lwfans cynghorwr ac i arwyddo ynghylch hyn

Lwfans Cadeirydd – bydd hwn yn cael ei newid i Gyllideb Cadeirydd o hyn allan

**11. 04/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**

- 1. Cyng B Jones – i. pryderu a oes clefyd wedi taro coed yn yn yr ardal
- 2. Cyng M Rees – i. gofyn y cwestiwn pam nad yw rhybuddion gorfodi yn cael ei dilyn allan
  - ii. gofyn i'r Gwasanaeth Ambiwlans a yw bocs diffibrilydd Felindre wedi ei gofrestru.

**12. 04/19 CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul nos Lun Mai 20ed 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.50yh

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad